GYDA'N GILYDD DROS NEWID
TOGETHER FOR CHANGE

# Gwell Gyda'n Gilydd – Creu rhwydweithiau a chynghreiriau i gryfhau cymunedau Cymru

## 11 Mehefin 2025

### Adroddiad cynhadledd

**John Hallett**



GYDA'N GILYDD DROS NEWID
TOGETHER FOR CHANGE

# Gwell Gyda'n Gilydd – Creu rhwydweithiau a chynghreiriau i gryfhau cymunedau Cymru – 11 Mehefin 2025

Digwyddiad ar gyfer grwpiau a sefydliadau cymunedol; sefydliadau'r trydydd sector, y sector cyhoeddus, a'r sector preifat; partneriaethau a Byrddau.

***Yn ôl sefydliadau sy'n gwasanaethu cymunedau, mae'r heriau sy'n eu hwynebu yn golygu ei bod yn anoddach ac yn anoddach iddynt wneud gwahaniaeth i les dinasyddion. Mae'n bwysicach nag erioed i ni gydweithio, i rannu gwybodaeth ac i chwilio am ffyrdd o sicrhau bod cysylltiadau cryf rhwng polisi, tystiolaeth a gweithredoedd sydd yn sbarduno newid cynaliadwy ac effeithiol.***

Yn y cyfarfod agored hwn, cafwyd cyfle i drafod atebion ymarferol ar gyfer mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cynnydd. Dyma rai cwestiynau a gafodd sylw:

- A oes gweledigaeth a blaenoriaethau sy'n gyffredin i bawb a allai'n galluogi i gyd-dynnu i'r un cyfeiriad?
- Beth yw bwriadau'r nifer gynyddol o rwydweithiau sydd yng Nghymru, a sut maen nhw'n gobeithio'u cyflawni? A oes unrhyw fylchau a fyddai'n elwa o adeiladu partneriaethau?
- Sut allwn ni sicrhau bod y corpws o dystiolaeth yn cael ei gyd-gynhyrchu, a'i fod yn cael ei ddwyn i sylw llunwyr polisi ac yn cael ei weithredu?
- Ar ba ffurf allai'r cynghrair cenedlaethol eang fod, a beth fyddai ei swyddogaethau i'w galluogi i drosglwyddo gwybodaeth ac i fod yn llwyfan ar gyfer newid?

## 1. Gwell Gyda'n Gilydd: Cymunedau, Ymchwil a Pholisi – Michael Woods, Prifysgol Aberystwyth.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Rhoddodd yr Athro Michael Woods sylw i sut mae gwaith ymchwil a gweithredu dan arweiniad y gymuned yn esblygu yng Nghymru.**

Mae datblygiad cymunedol yn rhan annatod o ddiwylliant a hanes Cymru, mae i'w weld yn hunanlywodraeth yr anghydffurfwyr ac yng nghymunedau clòs y pyllau glo, ac mae wedi bod yn gatalydd i adfywiad cymunedol ac economaidd ers tro byd. Yng Nghymru, er gwaethaf newidiadau i bwyslais polisi a heriau megis Brexit a newidiadau o ran nawdd, mae cymunedau'n parhau i fod yn weithredol wrth reoli gwasanaethau lleol a chefnogi grwpiau ymylol. Heddiw, mae mwy a mwy o symudiad tuag at waith ymchwil sy'n cael ei yrru gan y gymuned ac sy'n cael ei gyd-gynhyrchu â'r gymuned, gan eirioli dros

bartneriaethau cryfach rhwng cymunedau, prifysgolion, cyllidwyr, a'r llywodraeth.

Nod y dull cydweithredol hwn yw grymuso cymunedau, sicrhau bod gwaith ymchwil yn berthnasol ac yn cael effaith wirioneddol, a mynd i'r afael â'r hen rwystrau sy'n gysylltiedig ag ymddiriedaeth, cyllid a chynhwysiant. Mae'r gwaith yn tanlinellu'r angen am newid systemig yn y ffordd y mae gwaith ymchwil yn cael ei gynnal, ei ariannu a'i ddefnyddio i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

**Negeseuon Allweddol**

- **Cyd-destun Hanesyddol a'r Ysbryd Cymunedol yng Nghymru:**
  - Mae gan Gymru draddodiad cryf o weithredu cymunedol, un sydd wedi'i wreiddio mewn syniadau diwylliannol fel cynefin a hanes o hunan-drefnu, megis llywodraethu capeli'r anghydffurfiol ac yn undod cymunedol y pyllau glo a'r chwareli.
  - Mae mentrau datblygu cymunedol cynnar yng nghefn gwlad Cymru yn dyddio'n ôl i'r 1960au–1980au, yn aml yn hŷn na newidiadau polisi.
- **Amgylchedd Polisi ac Amwysedd:**
  - Ers y 1990, mae symudiad wedi bod tuag at 'lywodraethu trwy gymunedau', gyda phwyslais ar weithio mewn partneriaeth a chyfranogiad lleol.
  - Fodd bynnag, mae Cymru'n arddangos rhywfaint o amwysedd gwleidyddol tuag at leoliaeth, a hynny oherwydd ei hymlyniad i'r wladwriaeth les, ei hamheuaeth o neo-ryddfrydiaeth, a'r blaenoriaethau a roddwyd ar adeiladu cenedl yn sgil datganoli.
  - Mae Brexit a newidiadau polisi wedi gwanhau fframweithiau datblygu lleol megis LEADER, sy'n cael eu harwain gan y gymuned, gan adael cymunedau rhwng dwy stôl – diwygio amaethyddol/amgylcheddol a strategaethau economaidd rhanbarthol.
- **Gweithredu Cymunedol Heddiw:**
  - Mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i gymunedau ddechrau rhedeg gwasanaethau a chyfleusterau lleol megis llyfrgelloedd, siopau a chanolfannau cymunedol, yn aml gan ddibynnu ar wirfoddolwyr i'w staffio.
  - Mae gweithgareddau cymunedol hefyd yn cefnogi grwpiau ymylol trwy gynnig bwyd, cefnogaeth gymdeithasol, a phrosiectau amgylcheddol, gan gynnwys mentrau ynni cymunedol.
- **Gwaith Ymchwil a Chydweithredu Cymunedol:**
  - Mae bwlch sylweddol rhwng gwaith ymchwil academaidd a gweithredu cymunedol, gyda'r rhan helaeth o waith ymchwil hyd yma wedi tueddu i fod yn drafodaethol, heb unrhyw gyfranogiad uniongyrchol gan y gymuned.
  - Fodd bynnag, mae mwy a mwy o symudiad tuag at fodelau ymchwilio sy'n cael eu harwain gan gymunedau ac sy'n cynnwys cymunedau fel partneriaid mewn ymchwil, gan roi'r gallu iddyn

nhw fynd i'r afael â materion lleol ac i ddefnyddio'r canfyddiadau i ganfod datrysiadau ymarferol.
    - Mae'r amrywiaeth o brosiectau ymchwil cymunedol ar draws Cymru sy'n canolbwyntio ar faterion lleol, megis trafnidiaeth a phryderon amgylcheddol, gyda chefnogaeth mentoriaid academaidd yn enghreifftiau o hyn.
- **Gwawr Newydd:**
    - Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i addysg bellach a pholisi ar hyn o bryd yn cynnig cyfleoedd i gryfhau partneriaethau rhwng cymunedau a gwaith ymchwil.
    - Mae ysfa gyffredin i droi ymchwil dan arweiniad y gymuned yn arfer safonol sydd o fudd i'r gymuned yn ogystal â'r ecosystem gwaith ymchwil ehangach.

**Argymhellion i randdeiliaid**

- Dylai ***ymchwilwyr*** alluogi ymchwil cymunedol, addasu sut cyfathrebu, fod yn hyblyg a meithrin perthnasoedd hirhoedlog.
- *Mae angen i* ***brifysgolion*** gydnabod amrywiaeth o werthoedd ymchwil, lleihau biwrocratiaeth, rhoi amser i ymchwilwyr, derbyn gwaith pro-bono, a rhannu eiddo deallusol.
- Dylai ***cyrff cyllido*** ehangu cymhwysedd ar gyfer cyllid, rhoi nawdd hirdymor, symleiddio prosesau, ac ailystyried metrigau gwerthuso.
- Rhaid i ***lywodraethau*** ddatblygu polisïau strategol sy'n cefnogi datblygiad cymunedau, ehangu diffiniadau o dystiolaeth, mynd i'r afael â rhwystrau ariannol, cymell partneriaethau rhwng prifysgolion a chymunedau, ac ariannu camau dilynol.
- Dylai ***cymunedau*** feithrin cyfranogiad cynhwysol, cymryd cyfrifoldeb dros wneud gwaith ymchwil, deall prosesau, rhannu data, sy'n cefnogi eraill,cymryd camau dilynol, a bod â disgwyliadau realistig.

## 2. Bylchau a Chyfleoedd – Jessie Buchanan, Gyda'n Gilydd dros Newid

**Fe amlinellodd Jessie Buchanan (Cadeirydd y Gynhadledd) yr angen i adeiladu ar y cynnydd a wnaed ar ragor o ymchwil a gwblhawyd ym mis Medi 2024**, ***Gweithio Gyda'n Gilydd Dros Gymru Well*** **a'r** ***Ymgynghoriad Gwell Gyda'n Gilydd***. **Mae yna fylchau a chyfleoedd, y beth, sut a phwy sydd angen cael eu harchwilio.**

**Negeseuon Allweddol**

- Cefnogi cymunedau a sefydliadau cymunedol i arwain gwaith ymchwil ac i gymryd rhan ynddo yn hyderus, gan sicrhau bod yr amodau'n iawn i

wneud hyn, megis sicrhau bod amser i wneud a bod cydnabyddiaeth ar gael gan sefydliad/ariannwr i gynnal y gwaith hwn.
- Annog cydweithredu rhwng sefydliadau angor a'u partneriaid er mwyn rhannu dysg ac offer, ac i ddatblygu gweledigaeth sy'n cael ei rhannu'n genedlaethol, gan ysgogi twf rhwydweithiau daearyddol a rhai thematig.
- Ystyried ffurfio neu gryfhau cynghrair a all ddod â lleisiau ynghyd, a all bwyso i wneud y llywodraeth yn atebol, ac a all weithio ar flaenoriaethau eang mewn amgylcheddau heriol.
- Archwilio'r syniad o greu storfa ganolog lle gellid gosod a rhannu adnoddau, a hynny er mwyn cefnogi ymdrechion i newid ar y cyd, mewn partneriaeth ag eraill.
- Parhau i adeiladu ar etifeddiaeth a gweledigaeth Selwyn Williams trwy feithrin cynghreiriau ehangach, dulliau cymunedol-ganolog o "gyfathrebu" ynghylch llesiant, a gwrthod modelau economaidd echdynnol o blaid creu cyfoeth cynhwysol.
- Annog sgyrsiau a myfyrdodau parhaus ar sut i wella effeithlonrwydd cydweithio mewn cynghreiriau a mentrau datblygu cymunedol yn y dyfodol.

## 3. Gweithdai

### i. Cydgynhyrchu ymchwil – Gwendolyn Stark, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru; Jess Silvester, People's Economy

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Co-production Network for Wales

PEOPLE'S ECONOMY

**Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu ar archwilio ar y sefyllfa ar hyn o bryd, yr heriau a'r cyfleoedd o ran cyd-gynhyrchu yng nghyd-destun polisi ac ymarfer Cymru.**

**Beth drafodwyd?**

- Y dealltwriaeth gyffredinol yw bod cyd-gynhyrchu yn bwysig, ac mae wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth allweddol yng Nghymru megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan y rhanddeiliaid angerdd yn ogystal â dealltwriaeth o'r potensial sydd yma.
- Mae bwlch sylweddol rhwng yr ymrwymiad ar lefel polisi a gwaith ymarferol ar lawr gwlad, gyda sefydliadau'n methu â chyflawni cyd-gynhyrchiad mewn ffordd effeithiol o ganlyniad i ddiffyg caniatâd, cyllid, hyfforddiant a pharodrwydd diwylliannol.

- Mae dynameg pŵer yn her sylfaenol: mae pryderon ynghylch pwy sydd â'r pŵer, pa leisiau sy'n cael eu clywed, yr ofn o ildio rheolaeth, a sut mae sicrhau bod lleisiau cymunedol amrywiol, y tu hwnt i'r rhai sydd â phŵer neu amser ar hyn o bryd, yn cael eu cynrychioli ac yn cyfrannu.
- Mae cyd-gynhyrchu yn gymhleth, ac er mwyn iddo lwyddo rhaid cael diwylliannau sefydliadol sy'n cefnogi risgiau, yn caniatáu methiant, yn gallu rheoli gwrthdaro, ac yn croesawu newid. Prin yw'r sefydliadau a all wneud hyn ar hyn o bryd.
- Mae cyd-gynhyrchu'n gofyn am lawer o adnoddau ac nid yw'n briodol ym mhob cyd-destun, ond pan gaiff ei wneud yn dda gall arbed amser ac adnoddau yn y tymor hir trwy annog cymunedau i dderbyn canlyniadau ac i rannu'r cyfrifoldeb amdanynt.
- Mae tuedd i ddefnyddio'r gair 'cyd-gynhyrchu' fel *buzzword*, heb iddo fod ag unrhyw gamau ystyrlon, a gall hynny arwain at ymgysylltiad ar lefel symbolaidd yn unig, at ddiffyg atebolrwydd, ac at erydu pŵer cymunedau os na wneir gwaith dilynol ar y canlyniadau.
- Mae iaith yn bwysig: mae rhai'n galw am symleiddio cyd-gynhyrchu i'w egwyddorion a'i werthoedd craidd, gan ddefnyddio iaith syml i gysylltu â chynulleidfa ehangach na'r rhai sydd eisoes yn gefnogol ohono.
- Mae cyd-gynhyrchu ystyrlon yn golygu gwneud "gyda' yn hytrach nag "ar ran", gan werthfawrogi pob parti gymaint â'i gilydd, rhannu pŵer, cyd-greu datrysiadau, a sicrhau bod y cyfranogwyr â pherchnogaeth a chyfran yn y canlyniadau. Mae'n gofyn am rannu amcanion eglur ac am ymgysylltu parhaus dros amser.
- Mae meithrin perthynas ac ymddiriedaeth yn hanfodol, ond pur anaml y rhoddir digon o werth ac adnoddau i mewn i hyn yn y strwythurau comisiynu a chyllid, sydd felly'n tueddu i ffafrio prosiectau tymor byr sy'n arwain at gyfranogwyr yn mynd a dod ac at golli gwybodaeth sydd wedi cronni.
- Mae angen rhannu mwy o arferion da a drwg ac astudiaethau achos, a chael sgyrsiau gonest am yr heriau sy'n bodoli wrth geisio adeiladu cyd-ddealltwriaeth ac i symud cyd-gynhyrchu y tu hwnt i rethreg yn unig.

**Argymhellion**

- Hwyluso mwy o gyfleoedd i rannu astudiaethau achos, gan gynnwys llwyddiannau a methiannau, a hynny er mwyn adeiladu dealltwriaeth ar y cyd a chasglu gwybodaeth ymarferol am gyd-gynhyrchu.
- Dylanwadu ar gyllidwyr i roi cyllid a grantiau tymor hwy yn hytrach na chomisiynu ar gyfer y tymor byr, a hynny er mwyn cynnal perthnasoedd hirhoedlog ac osgoi colli doniau a throsiant personél.
- Datblygu diwylliant a hyfforddiant sefydliadau er mwyn galluogi cymryd risgiau, caniatáu methiant, a chefnogi prosesau cyd-gynhyrchu i ymdopi â dynameg pŵer a gwrthdaro.
- Ehangu ymgysylltiad y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes ag ymrwymiad i gyd-gynhyrchu a chynnwys lleisiau cymunedol ehangach, yn enwedig y rhai sydd ddim fel arfer yn cael eu clywed oherwydd amser, adnoddau, neu rwystrau cymdeithasol.

- Gwella mecanweithiau atebolrwydd er mwyn sicrhau bod ymrwymiadau cyd-gynhyrchu yn cael eu trosi'n weithredoedd a bod cymunedau yn cael gwybod am y canlyniadau er mwyn osgoi arferion echdynnol.
- Hyrwyddo'r syniad o bwysigrwydd pob ymgysylltiad, gyda phob aelod o staff â chyfrifoldeb dros ymgysylltu â chymunedau mewn ffordd ystyrlon, nid swyddogion neu dimau penodol yn unig.
- Cefnogi sgyrsiau anodd a gonest o fewn sefydliadau a rhwng sefydliadau am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim yn gweithio o ran cyd-gynhyrchu, gan greu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu a gwella.
- Ymgysylltu ag ymchwilwyr ac academyddion i'w hannog i weithio'n agosach gyda chymunedau ac i gyd-gynhyrchu er mwyn pontio bylchau rhwng theori ac ymarfer.
- Symleiddio'r iaith a ddefnyddir wrth drafod cyd-gynhyrchu er mwyn canolbwyntio ar y gwerthoedd craidd, gan ei wneud yn fwy hygyrch a dealladwy i bob rhanddeiliad.
- Cydnabod yr effaith y mae contractau tymor byr ansicr yn ei chael ar staff sy'n ymwneud â chyd-gynhyrchu, ac i fynd i'r afael â hynny i wella parhad ac i gadw sgiliau a pherthnasoedd.

## ii. Rhwydweithiau a'u cyfraniad at lesiant cymunedau – Dave Horton (Prifysgol Caerdydd) a Zain Hafeez (Citizens Cymru)

CIVIC POWER FUND

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

**Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar rwydweithiau cymunedol, datblygu cymunedol seiliedig ar asedau (ABCD), trefnu cymunedol, a chymhlethdod ecosystemau newid cymdeithasol yng Nghymru. Dechreuodd gwaith i ddeall rhwydweithiau a'u mapio, i fanteisio ar bŵer, dylanwad, a chyfalaf cymdeithasol ar y cyd ar draws ardaloedd trefol a gwledig Cymru.**

**Beth drafodwyd?**

- Roedd y sesiynau yn archwilio'r berthynas a'r tensiwn sy'n bodoli rhwng trefnu cymunedol a datblygu cymunedol, gan dynnu sylw at y ffaith bod trefnu cymunedol yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gan ddatblygu cymunedol.
- Edrychwyd ar y cysyniad o'r ecosystem newid cymdeithasol, gan bwysleisio bod gwahanol grwpiau a swyddi, megis gwaith ymchwil, datblygu cymunedol, ymgyrchu rheng flaen, a gwaith aflonyddu, oll yn gydrannau cyfartal o'r ecosystem hon.
- Trafodwyd pa mor bwysig yw deall a mapio rhwydweithiau, gan gynnwys y cryfderau a'r bylchau o fewn rhwydweithiau ledled Cymru, gan roi sylw i ardaloedd trefol a rhai gwledig.

- Nodwyd bod heriau o ran casglu gwybodaeth am rwydweithiau anffurfiol, o ran cymhlethdod y gwahaniaethau rhanbarthol, ac o ran yr angen i ystyried dulliau thematig a rhai sy'n seiliedig ar le.
- Trafodwyd y defnydd o ddatblygu cymunedol seiliedig ar asedau (ABCD) a threfnu cymunedol fel offer i uno ymdrechion tameidiog ac i adeiladu pŵer ar y cyd hefyd.

**Argymhellion**

- Dim ond y dechrau yw'r gwaith mapio, ac mae angen datblygu pellach i gael gwell dealltwriaeth o gymhlethdod rhwydweithiau ar lawr gwlad, gan gynnwys rhwydweithiau anffurfiol a rhai digidol.
- Rhaid adeiladu pontydd ac uno gwahanol grwpiau a rhwydweithiau er mwyn gwrthweithio darnio.
- Dylai gwaith yn y dyfodol ymgorffori dulliau lleol a thematig o rwydweithio.
- Awgrymwyd y dylid datblygu platfform digidol i hwyluso mynediad at fapiau rhwydwaith a'u gwneud yn haws i'w defnyddio a'u diweddaru, gan gefnogi trefnu cymunedol ac i feithrin dylanwad.
- Argymhellwyd y dylid rhoi pwyslais ar adeiladu perthnasoedd â bwriad yn hytrach nag ar wneud cysylltiadau gweithrediadoll neu frysiog er mwyn meithrin pwrpas a strategaeth gydgysylltiedig.

## iii. Offer a syniadau sy'n gwneud synnwyr o gymhlethdod – Christian Heathcote-Elliot (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Jo Hutchings (Prifysgol Abertawe)

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Swansea University Prifysgol Abertawe

**Roedd y gweithdy hwn yn trafod yr heriau a'r weledigaeth ar gyfer gwella cydweithrediad ac ymgysylltiad â'r gymuned ymhlith Sefydliadau Addysg Uwch, y sector cyhoeddus, a sefydliadau cymunedol.** Defnyddiwyd [***fframwaith Three Horizons***] **i gefnogi'r drafodaeth. Dyma offeryn strategol a ddatblygwyd gan y National Density Coordinating Centre for Public Engagement er mwyn archwilio'r heriau presennol, y newidiadau yn y dyfodol agos, a'r dyheadau hirdymor sy'n gysylltiedig â gwaith ymgysylltu â'r gymuned.**

**Beth yw'r fframwaith Three Horizons?**

- Horizon 1: Canolbwyntio ar nodi'r heriau sy'n effeithio ar ymgysylltu â'r gymuned ar hyn o bryd.
- Horizon 2: Edrych ar bethau a allai darfu yn y dyfodol agos a'r newidiadau sydd eisoes ar y gweill.

- Horizon 3: Rhagweld y cyflwr delfrydol 20 i 30 mlynedd o nawr, yr hyn y mae'r sector yn anelu at ei gyflawni fel cenedl a chymuned.

**Beth drafodwyd?**

- Heriau presennol yn y berthynas rhwng Sefydliadau Addysg Uwch, y sector cyhoeddus, a sefydliadau cymunedol, gan gynnwys blaenoriaethau academaidd, perthnasoedd gwan ac amrywiol, diwylliant o feio, diffyg buddsoddiad hirdymor, penderfyniadau afloyw, deinameg pŵer, a chystadleuaeth am arian.
- Yr angen i ddatgymalu strwythurau hierarchaidd a meithrin dulliau mwy cydweithredol, cynhwysol a chydweithredol o ymgysylltu â chymunedau a gwaith ymchwil cymunedol.
- Pwysigrwydd meithrin ardaloedd peilot, mannau cyfathrebu diogel, a grymuso cymunedau i ganfod eu llais.
- Rhwystrau megis trefniadau cyllido, gwahanol ieithoedd a strwythurau ar draws sectorau, diffyg adnoddau sy'n cael eu rhannu, ac ymgysylltiad cyfyngedig, yn enwedig gyda grwpiau sy'n 'hawdd eu hanwybyddu'.
- Edrych ar ddyfodol lle gallai perthnasoedd fod yn fwy cyfiawn, cydweithredol ac adfywiol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd, dosbarthu pŵer yn deg, cefnogaeth gymunedol integredig, a'r defnydd o ddulliau llesiant holistaidd.
- Yr angen am well cyfathrebu, am gydbwyso safoni ag ymreolaeth, am atebolrwydd, ac am gefnogaeth hirdymor.
- Sut all newidiadau polisi, diwygiadau o ran llywodraethiant, a buddsoddi mewn sgiliau gweithlu gefnogi cyd-gynhyrchu a datblygiad cymunedol.
- Yr heriau a wynebir wrth symud o argyfwng i argyfwng, a phwysigrwydd camu oddi wrth hynny am gyfnod i wrando ac i gynllunio ar gyfer newid hirdymor.

**Prif Argymhellion**

- Annog sefydliadau addysg uwch i ailgysylltu â'u gwreiddiau fel sefydliadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned, ac i ystyried bod gwaith cyhoeddus a chymunedol yn ystyriaethau hanfodol yn hytrach nag ystyriaethau ar wahân.
- Datblygu a buddsoddi mewn systemau democratiaeth cydgynghorol cadarn sy'n galluogi ymgysylltu cydgysylltiedig, traws-sectorol ac sydd wedi'u cynllunio er budd cymunedau lleol.
- Meithrin partneriaethau gwirioneddol lle mae gan gymunedau bŵer a pherchnogaeth y tu hwnt i gyfyngiadau sefydliadol a gwleidyddol.
- Creu canolfannau gwybodaeth ac adnoddau dibynadwy i rannu gwybodaeth ar draws sefydliadau mewn ffordd barhaus.
- Blaenoriaethu mecanweithiau cynllunio a chyflawni strategol hirdymor gydag atebolrwydd ystyrlon ar lefelau uwch.
- Buddsoddi er mwyn datblygu'r gweithlu i wella sgiliau cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â'r gymuned.

- Hyrwyddo datblygiad cymunedol sy'n seiliedig ar asedau a sicrhau bod cwestiynau ymchwil yn cael eu cytuno trwy gonsensws cymunedol.
- Annog monitro a gwerthuso ar y cyd, gan symud oddi wrth brofi gwerth tuag at wella canlyniadau a dysgu.
- Cefnogi datgymalu systemau gwneud penderfyniadau hierarchaidd ac afloyw, gan alluogi ymchwil hygyrch a chyfathrebu tryloyw.
- Darparu modelau cyllido parhaus sy'n cefnogi cydweithredu, cynaliadwyedd, ac yn osgoi cystadlu sy'n tanseilio effaith cydweithio.
- Cydnabod lleisiau grwpiau ymylol a 'hawdd eu hanwybyddu' a'u cynnwys er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg.
- Eirioli dros gael diwygiadau polisi sy'n cefnogi strwythurau llywodraethu cynhwysol, systemau llywodraeth gefnogol, a dealltwriaeth rhyng-sectorol.

## 4. Sesiynau amser cinio

### i. Helpu i lunio einmaniffesto ar gyfer newid gydag Eleri Williams o'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Fe wnaeth Eleri Williams, Cynghorydd Polisi ac Ymchwil yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau arwain sgwrs am y camau y mae ar gymunedau angen i lywodraeth nesaf Cymru eu cymryd. Gwahoddwyd pobl i sôn am y prif broblemau sy'n eu hwynebu a'r newidiadau y mae arnynt eu hangen er mwyn helpu i lunio maniffesto ar gyfer newid dan arweiniad y gymuned – un sy'n adlewyrchu profiadau pobl, blaenoriaethau a datrysiadau.

### ii. Russel Todd mewn sgwrs â Christala Sophocleous – *Community Development, Social Action and Social Planning*

Bu Russell Todd a Christala Sophocleous yn trafod rai o themâu'r llyfr *Community Development, Social Action and Social Planning*. I gyd-fynd â themâu ehangach y digwyddiad, fe wnaethant hefyd drafod sut mae ymarfer gwaith cymunedol yn rhan ganolog o adeiladu a chynnal y cynghreiriau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â rhai o heriau cymdeithas.

### iii. *Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol* gyda Sarah Wyddall, Prifysgol Abertawe

Cafodd pobl gyfle i glywed am y Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol ac i ofyn cwestiynau am gymryd rhan. Mae'r Swyddfa'n cysylltu cymunedau ag ymchwilwyr ledled De a Gorllewin Cymru i archwilio heriau a

chyfleoedd lleol. Mae'r tîm, yn canolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd a chefnogi gwaith sy'n digwydd yn lleol ar hyn o bryd er mwyn galluogi cydweithrediad, a hynny gan ddefnyddio dull sy'n hyblyg ac yn gynhwysol—gan gredu bod partneriaethau hirdymor yn arwain at well effaith.

### iv. *we're right here* . . . . . . - Adam Kennerley, CYD Cymru

Mae cymunedau wedi bod yn darparu gwasanaethau rheng flaen a chefnogaeth gymunedol ers cyn cof. Ar hyn o bryd, gyda mwy o alw am adnoddau cyhoeddus a llai ohonynt ar gael, mae hi'n bwysicach nag erioed i gymunedau ddathlu eu sgiliau a'u profiadau a chael eu gwerthfawrogi am yr hyn a wnânt. Bu Adam yn rhannu enghreifftiau o sut mae cymunedau'n helpu cymunedau eraill yma yng Nghymru, gan sôn am sut mae cyfleoedd i ddysgu gan bob cwr o'r DU (a thu hwnt) yn dod yn fwyfwy cyffredin yma yng Nghymru (yn ogystal â sut mae cymunedau Cymru bellach yn rhannu eu dysg â chymunedau eraill y tu hwnt i Gymru). Anogwyd sgwrs i drafod sut y gall sefydliadau fel CYD Cymru gefnogi eich uchelgeisiau cymunedol.

## 5. Crynodeb ac Edrych i'r Dyfodol – Christala Sophocleous, Jessie Buchanan

### i. Crynodeb

- **Amwysedd neu absenoldeb polisi** – Mae diffyg gwaith monitro neu werthuso fframweithiau polisi presennol, yn enwedig mewn ymateb i argyfwng.
- **Traddodiadau cryf o weithredu cymunedol** – Yng Nghymru, mae hen draddodiad o weithredu cymunedol a threfnu cymunedol sy'n parhau i fod yn fyw ac iach. Mae'r traddodiad hwn yn gyfle i gydweithio a chymunedau ac i fabwysiadu dull mwy radical i symud pethau ymlaen.
- **Y berthynas rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a chymunedau** – Mae brwdfrydedd a synergedd cydnabyddedig rhwng sefydliadau addysg uwch ac ymgysylltiad cymunedol. Awgrymir y dylid ehangu'r sgwrs i gynnwys colegau ochr yn ochr â phrifysgolion, a gallai'r gwaith ganolbwyntio ar gynnwys sectorau fel gofal iechyd, gofal yn y cartref a gofal cymdeithasol.
- **Cyfnewid gwybodaeth a rhwydwaith gefnogi** – Mae Gyda'n Gilydd Dros Newid a'i bartneriaid yn cydweithio i gefnogi cyfnewidiad gwybodaeth, cyd-gynhyrchiad, a rhwydwaith gefnogi, gan gydnabod y cymhlethdod sy'n bodoli a chan anelu at greu eglurder a chyfleoedd trwy storfeydd gwybodaeth, adnoddau ac offer. Mae *Arsyllfa Cymru* yn bodoli i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a lledaenu ymchwil.

- **Egni ysbrydoledig a chadarnhaol!** – Diwrnod ysbrydoledig, gyda chyfraniadau cryf gan bartneriaid a chydweithwyr, a fydd yn ein sbarduno i barhau i weithio gyda'i gilydd.

## ii. Y Camau Nesaf

- **Cynghreiriau** – Galwad i ffurfio cynghreiriau sy'n dod â lleisiau ynghyd ac yn rhannu egwyddorion er mwyn symud ymlaen mewn ffordd gydweithredol.
- **Ymgysylltiad** – Gwahoddiad i'r rhai sy'n bresennol ynghyd â phobl a sefydliadau eraill i fynegi eu diddordeb mewn cymryd rhan mewn ymdrechion parhaus.
- **Cyfathrebu** – Bydd Gyda'n Gilydd Dros Newid mewn cysylltiad â grwpiau, unigolion a sefydliadau allweddol i helpu i lywio gwaith ac ymdrechion yn y dyfodol.
- **Hyrwyddo adnoddau** – Anogaeth i ddefnyddio adnoddau megis Arsyllfa Cymru.
- **Egni** – Adeiladu ar yr egni a welwyd trwy gydol y dydd, i ddatblygu ac i barhau â'r gwaith.



# Gwell Gyda'n Gilydd – Creu rhwydweithiau a chynghreiriau i gryfhau cymunedau Cymru

GYDA'N GILYDD DROS NEWID
TOGETHER FOR CHANGE

Mewn cydweithrediad â:

CYMRU WLEDIG LPIP RURAL WALES

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd — Social Science Research Park / Y Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol

Civic Power Fund

People's Economy

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru / Co-production Network for Wales

Swansea University / Prifysgol Abertawe

BCT — Building Communities Trust / Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Engaged Futures Catalyst Conversation — In support of NCCPE Engaged Futures

Cronfa Gymunedol / Community Fund

www.tfc.cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: post@tfc.cymru